Dysgwyr a Staff	Adnabod dysgwyr i'w hailintegreiddio	<ul style="list-style-type: none"> <li>Wrthi'n gweithio ar ddiffiniad Llywodraeth Cymru (LIC) o weithwyr allweddol a bregus - niferoedd presennol angen cymorth yn codi.</li> </ul>	5	4	20	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ail integreiddio ar sail anghenion.</li> <li>Lleihau'r angen am gymysgu dosbarthiadau.</li> <li>Aseidiadau risg unigol i bob dysgwr sydd â chynlluniau gofal.</li> <li>Ystyried dechrau efo cynhwysedd 20% a chynyddu yn ôl llwyddiant.</li> <li>Oni bai y caiff ei reoli'n ofalus iawn, gallai hyn achosi i'r ysgol fod ar gau am gyfnod hir.</li> </ul>				<p>Ystyriwch ailgyflwyno dysgwyr mewn blociau neu garfanau, megis grŵp gwahanol o ddysgwyr bob wythnos. Nid oes angen i grwpiau blwyddyn benderfynu hyn o reidrwydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Os yw'n bosibl, dylai ysgolion ystyried cymysgu grwpiau blwyddyn a gall hyn ganiatáu i blant o'r un aelwyd fynychu ar yr un pryd.</li> <li>Dylid ystyried hyn hefyd ar gyfer plant gweithwyr critigol a phlant sy'n agored i niwed.</li> <li>Ystyriwch hefyd dri grŵp posibl y gellir eu hadnabod:             <ol style="list-style-type: none"> <li>Yn yr ysgol ond mewn amgylchiadau anghyfarwydd</li> <li>Methu dod i mewn (bregus, ac ati)</li> <li>Ddim yn fodlon dod i mewn (awgrymu cyswllt â statws economaidd gymdeithasol)</li> </ol> </li> </ul>		

COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL GYNRADD

Grŵp	Maes Pryder	Mesurau Parod	Tebygolrwydd	Dirifoldeb	Sgôr	Mesurau Rheoli Ychwanegol	Tebygolrwydd	Dirifoldeb	Sgôr	Sylwadau Ychwanegol	Cyfrifoldeb	A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw?
Dysgwyr a Staff	Crisialu pwrpas presenoldeb addysgol ar safleoedd ysgol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd yn anodd gorfodi gofynion presenoldeb arferol gan fydd dymuniadau rhieni/gofalwyr yn amrywion fawr o ran eu disgwyliadau am ddiogelwch eu plant mewn rhaglen ail ymgysylltu.</li> </ul>	3	4	12	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd angen i ysgolion gysylltu â'r ALL i weld a yw'r canllawiau a'r disgwyliadau i'w rhannu efo rhieni/gofalwyr a chreu gweithdrefnau gwirio ac olrhain os teimlant nad yw dysgwyr yn cyrraedd y disgwyliadau hyn.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai hyn fod yn broses o annog yn hytrach na gorfodaeth, oni bai ei fod yn dod o dan bryder diogelu.</li> <li>Ni ddylai neb sydd â symptomau Covid-19 fynychu lleoliad am unrhyw reswm.</li> <li>Dylai plant cymwys – gan gynnwys grwpiau blaenoriaeth - gael eu hannog yn gryf i fynychu'r ysgol, oni bai eu bod yn hunan ynysu neu'n agored i niwed (os felly, dylent ddilyn cyngor meddygol).</li> <li>Os yw rhywun yn eu cartref yn agored i niwed, dim ond os gellir cadw at ymbellhau cymdeithasol llym y dylid mynychu, a bod y plentyn yn gallu deall a dilyn y cyfarwyddiadau hynny.</li> <li>Dylai ysgolion a lleoliadau gadw cofnod o bresenoldeb a dylai teuluoedd hysbysu eu hysgol os nad yw eu plentyn yn gallu mynychu. Bydd hyn yn helpu ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol i ddeall unrhyw rwystrau sy'n rhwystro dysgwyr rhag dychwelyd i'r ysgol a nodi unrhyw gymorth pellach sydd ei angen. Ar hyn o bryd, ni fyddem yn disgwyl i rieni gael eu dirwyo am ddiffyg presenoldeb.</li> <li>Dylai ysgolion barhau i roi gwybod i weithwyr cymdeithasol os nad yw plant â gweithiwr cymdeithasol yn mynychu.</li> </ul>		
Dysgwyr a Staff	Staff sydd ar gael	<ul style="list-style-type: none"> <li>Oherwydd y system rota, y staff sydd ar gael yn briodol.</li> <li>Tua xx% yn hunan ynysu ac xx% ddim ar gael i weithio am resymau eraill.</li> <li>xx% o staff â phlant oed ysgol.</li> </ul>	3	3	9	<ul style="list-style-type: none"> <li>Wrth i gyswllt â mwy o ddygwyr gynyddu, bydd yr angen i staff sydd angen hunan ynysu hefyd yn codi.</li> <li>Mae staff sydd ag asthma ac/neu gyflyrau meddygol eraill yn llai tebygol o fynd i'r gwaith - angen dilyn canllawiau cenedlaethol.</li> <li>Bydd staff sydd â gorbryder efallai'n ei gweld hi'n anodd mynd i'r gwaith heb gael eu sicrhau.</li> <li>Adnabod staff sy'n gweithio gartref a staff sydd ar gael i weithio yn yr ysgol.</li> <li>Adnabod staff sydd â chyfrifoldebau gofal plant a gwneud rota bosibl.</li> <li>Ysgol i ystyried ail leoli staff i sicrhau tegwch a chydbwysedd.</li> <li>Darpariaeth i ddygwyr yn yr ysgol ac adref i fod yr un fath e.e. dewis a dethol, ychydig o dasgau ffocws dyddiol ac/neu brosiect thematig i'w gyflwyno'n electronig.</li> <li>Staff i weithio mewn timau (CS, CA2, Blynyddoedd Cynnar ac ati) i gynllunio ac ymateb i waith plant.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Dilyn canllawiau cenedlaethol/leol ar asthma/cyflyrau meddygol eraill.</li> <li>Arweiniad i ysgolion ar gymarebau athro/dysgwr - yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.</li> <li>Ni ddylai unrhyw un sydd wedi derbyn llythyr cysgodi fod yn bresennol ar hyn o bryd (yn unol â LIC).</li> </ul>		
Dysgwyr a Staff	Asesu'r risg i staff a dysgwyr bregus (agored i ddal Covid-10 ac/neu oherwydd diffyg cyswllt â'r ysgol)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan ysgolion dealltwriaeth o staff a dysgwyr sydd yn 'fregus' o dan y gofynion, ac mae mesurau diogelwch ar waith.</li> </ul>	2	4	8	<ul style="list-style-type: none"> <li>Creu cofrestr staff a dysgwyr sydd yn 'fregus'.</li> <li>Bydd angen ei diweddarw wrth i'r sefyllfa ddeinamig hon newid a bydd angen cyfleu unrhyw newid mewn statws mewn da bryd cyn i'r statws newydd ddechrau.</li> <li>Grwpiau neu unigolion 'bregus' i gael asesiadau risg unigryw os nad yw asesiadau risg arferol Covid-19 yn briodol i'w sefyllfaoedd.</li> <li>Os bydd unrhyw ddygwyr neu staff ar feddyginiaeth, gofalwch ei bod yn cael ei chadw yn yr ysgol ac nid ei hanfon gartref i osgoi unrhyw halogiad bosibl.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid gwneud hyn mewn partneriaeth â'r ALL i sicrhau cysondeb ac ymgynghori priodol â'r holl randdeiliaid.</li> </ul>		
Dysgwyr a Staff	Dangos symptomau yn yr ysgol - Gweithwyr, Dysgwyr, Rhieni/Gofalwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni ddylai gweithwyr, dysgwyr neu rieni/gofalwyr sy'n teimlo'n wael/dangos symptomau Covid-19 fynd i'r ymweld â'r ysgol.</li> </ul>	2	4	8	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni ddylai gweithwyr, dysgwyr neu rieni/gofalwyr sy'n teimlo'n wael/dangos symptomau Covid-19 fynd i'r ymweld â'r ysgol.</li> <li>Os bydd unrhyw un yn cael ei daro'n wael yn yr ysgol, rhaid iddynt adael yr ysgol cyn gynted ag y bo modd a dilyn canllawiau hunan ynysu.</li> <li>Ysgol i fonitro absenoldeb salwch dysgwyr a dweud wrth yr ALL am unrhyw achos a amheuir o symptomau Covid-19.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai ysgolion a lleoliadau gael gweithdrefnau clir os yw dysgwyr neu staff yn dechrau dangos symptomau ar y safle.</li> <li>Mae angen i'r staff a'r rhieni/gofalwyr ddeall y rhain yn llawn.</li> <li>Dylid cadw'r rhai sy'n dangos y symptomau ar wahân hyd nes y gellir eu casglu a mynd â hwy adref. Yn ddefnyddiol, dylai hyn fod mewn ystafell ar wahân, sy'n cael ei oruchwylio o bellter o ddau fetr.</li> <li>Dylai unrhyw un sy'n arddangos symptomau aros gartref am saith diwrnod.</li> <li>Dylai unrhyw un sy'n byw gyda rhywun sy'n arddangos symptomau ond sy'n aros yn dda aros gartref am 14 diwrnod o'r diwrnod y daeth y person cyntaf yn sâl.</li> </ul>		

COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL GYNRADD

Grŵp	Maes Pryder	Mesurau Parod	Mesurau Rheoli Ychwanegol			Sylwadau Ychwanegol	Cyfrifoldeb	A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw?		
			Tebygolrwydd	Difrifoldeb	Sgôr				Tebygolrwydd	Difrifoldeb
Dysgwyr a Staff	Anaf i ddysgwyr ar y safle	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pe byddai dysgwr yn cael anaf yn yr ysgol, byddai'r staff yn rhoi sylw i'r anaf neu'n trefn i weld meddyg neu fynd i'r ysbyty.</li> </ul>	2	4	8	<ul style="list-style-type: none"> <li>Wrth roi sylw i unrhyw glwyfau ac ati, staff ysgol i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) pob amser.</li> <li>Gofyn am ganiatâd gan riant/gofalwr i fynd i'r feddygfa neu'r ysbyty yn ystod pandemig.</li> <li>Os oes unrhyw amheuaeth (neu'n methu cysylltu â rhiant/gofalwr), cysylltu â Galw GIG/Gwasanaethau Brys am gyngor.</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae angen ystyried beth fyddai'n digwydd petai dysgwr yn cael ei anafu'n ddifrifol, neu fod rhywun â chyflwr meddygol angen mynd i'r ysbyty.</li> <li>Wrth gwrs, gellid galw'r gwasanaeth brys ar gyfer rhai digwyddiadau difrifol, ond nid pob tro.</li> <li>A yw staff yn fodlon mynd i'r ysbyty os na allai rhiant/gofalwr ddod i nol y dysgwr?</li> <li>A fyddai'r rhiant/gofalwr yn hapus i'r dysgwr fynd i'r ysbyty yn y lle cyntaf, gan gofio y gallai rhai fod yn amharod i fynd i'r ysbyty ar hyn o bryd?</li> </ul>	
Dysgwyr a Staff	Mynediad at Gyfarpar Diogelu Personol (PPE)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ychydig o gyfarpar diogelu personol ar gael i ysgolion.</li> </ul>	5	4	20	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ysgolion angen cael mynediad at gyflenwad cyfarpar diogelu personol i gefnogi staff a lleddfau pryder.</li> <li>Angen cyfarpar diogelu personol ar gyfer gofal personol agos nes bydd y rheoliadau wedi'u llacio.</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae canllawiau LIC yn nodi bod yn rhaid i'r defnydd o PPE gan staff mewn lleoliadau addysg fod yn seiliedig ar asesiad clir o risg, gan ystyried pob lleoliad unigol ac anghenion y dysgwr unigol.</li> <li>Mae gan ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol brosesau asesu risg ar waith eisoes y dylid eu defnyddio i ddefnyddio PPE.</li> <li>Yn dilyn unrhyw asesiad risg, lle mae'r angen am PPE wedi'i nodi, dylai fod ar gael yn rhwydd a dylid ei ddarparu.</li> <li>Lle yr asesir bod angen defnyddio PPE, dylai'r holl staff gael eu hyfforddi ar sut i osod PPE a'i dynnu oddi ar y cyfarpar (fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Iechyd a Diogelwch) a sicrhau bod staff yn cyfyngu lledaeniad Covid-19.</li> </ul>	
Dysgwyr a Staff	Gwisg ysgol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dysgwyr yn gwisgo gwisg ysgol yn ystod diwrnod ysgol arferol.</li> </ul>	3	3	9	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn wir, gallai'r sefyllfa fod yn waeth oherwydd problemau ariannol rhieni yn ystod cyfnod y cyfyngiadau, yn enwedig heb dâl llawn neu ddim tâl yn dod i mewn i'r tŷ.</li> <li>Mae angen i ysgolion ddangos cydymdeimlad ac efallai llacio rhai o'u rheolau o safbwynt gwisg ysgol.</li> <li>Os bydd dysgwyr yn defnyddio mwy ar y tu allan, gellid annog gwisgo dillad addas. Dylai dillad a wisgir fod yn hawdd eu golchi.</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw'n statudol i ddysgwyr cynradd gael gwisg ysgol.</li> <li>Mae'n bwysig bod y neges hon yn cael ei rhannu gyda'r holl rieni.</li> <li>Ble mae rhieni yn cael trafferthion ariannol, yna dylai ysgolion geisio darparu'r wisg ysgol i'r plentyn/plant.</li> <li>Gallai gwisgo dillad addas hwyluso gweithio tu allan a gallai hefyd gael effaith llesol ar y dysgwr - hwyluso'r trosglwyddo i'r 'normal newydd'.</li> </ul>	
Dysgwyr a Staff	Cod Gwisg Staff	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cod gwisg presennol ddim yn ymarferol efallai.</li> </ul>	4	3	12	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bu rhywfaint o drafodaeth y dylai staff ystyried golchi eu dillad ar ddiwedd pob diwrnod i leihau'r potensial i drosglwyddo haint.</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>Efallai bydd ysgolion yn meddwl bod gwisg llai ffurfiol yn fwy addas - yn enwedig oherwydd gellid annog dysgwyr i weithio tu allan.</li> </ul>	
"Y Diwrnod Ysgol"	Cyrraedd yr Ysgol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pob cerbyd (cyhoeddus a phreifat) i gyrraedd yr ysgol a pharcio yn y maes parcio neu ar y brif ffordd.</li> <li>Gall ceir ddefnyddio'r man gollwng i ddysgwyr hŷn.</li> <li>Dysgwyr iau (a rhai dysgwyr hŷn) yn cael eu danfon i'r ysgol gan rieni/gofalwyr.</li> <li>Gall fod yn amser prysur tu allan i'r prif adeilad - dibynnu ar gyd-destun yr ysgol.</li> </ul>	3	4	12	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trefn bendant ar gyfer dod i mewn i'r ysgol - defnydd posibl o wahanol giatiau/mynedfa i rieni/dysgwyr yn cerdded i'r ysgol i sefydlu system unffordd</li> <li>Ystyried defnyddio meysydd parcio lleol i osgoi tagfeydd diangen.</li> <li>Sefydlu rheolau cadw pellter cymdeithasol unwaith ar safle'r ysgol - o'r giatiau ymlaen.</li> <li>Sefydlu llwybrau o'r giatiau at ddothbarthiadau unigol.</li> <li>Ystyried manteision ac anfanteision amseroedd gwasgarog - gweithio i deuluoedd ond efallai dim grwpiau blwyddyn - efallai gorfod aros ar gychwyn/diwedd y dydd.</li> <li>Wrth ddod i mewn i'r ysgol, ystyried pwyntiau mynediad gwahanol i wahanol ddysgwyr - ydyn nhw'n gallu mynd i mewn i'r dosbarth yn syth o'r tu allan?</li> <li>Pob dysgwr i olchi dwylo yn drylwyr cyn neu wrth fynd i mewn i'r dosbarth.</li> <li>A ellir cadw drysau (ar wahân i ddrwsau tan, toiledau a diogelwch) ar agor i leihau lledaenu haint.</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>Arweiniad pendant i bawb ar gadw pellter cymdeithasol ar safle'r ysgol.</li> <li>Staff ar rota i oruchwylio rhieni a disgyblion wrth gyrraedd yr ysgol</li> </ul>	



COVID-19 - PARATO I AIL AGOR YSGOLION - ASESAD RISG YSGOL GYNRADD

Grŵp	Maes Pryder	Mesurau Parod	Tebygolrwydd	Dirifrodeb	Sgôr	Mesurau Rheoli Ychwanegol	Tebygolrwydd	Dirifrodeb	Sgôr	Sylwadau Ychwanegol	Cyfrifoleb	A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw?
"Y Diwrnod Ysgol"	Cyrraedd y Dosbarth	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gyda nifer llai o ddysgwyr, efallai mai ychydig iawn o ddysgwyr fydd ym mhob dosbarth.</li> </ul>	5	4	20	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pob dysgwr i olchi dwylo cyn/wrth gyrraedd y dosbarth. Golchi dwylo rheolaidd yn ystod y dydd.</li> <li>Symud desgiau/dodrefn i sicrhau cadw pellter cymdeithasol.</li> <li>Pob dysgwr i gael lle/ardal ac offer penodol i weithio.</li> <li>Sefydlu trefn glir ar gyfer dod i mewn i'r dosbarth i'w lle penodol - i gynnwys system unffordd o symud o gwmpas y dosbarth.</li> <li>Adnoddau penodol i bob dysgwr - gawn nhw ddod â rhai eu hunain?</li> <li>Monitro egwyl toiled.</li> <li>Atgoffa o reolau/canllawiau yn rheolaidd drwy gydol y dydd.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau bod yr holl staff a dysgwyr yn golchi eu dwylo'n rheolaidd a bod y cyfleusterau hyn ar gael.</li> <li>Dylid eu golchi gyda sebon a dŵr am o leiaf 20 eiliad.</li> <li>Dylai staff hefyd sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hatgoffa o dechnegau effeithiol o olchi dwylo.</li> <li>Dylai golchi dwylo'n rheolaidd gynnwys:                             <ul style="list-style-type: none"> <li>- wrth gyrraedd ac wrth adael yr ysgol neu'r lleoliad</li> <li>- cyn ac ar ôl trafod bwyd</li> <li>- cyn ac ar ôl trafod gwrthrychau ac offer a allai fod wedi cael eu defnyddio gan eraill</li> <li>- lle bu unrhyw gyswllt corfforol</li> <li>- ar ôl i bobl chwythu eu trwyn, disian neu beswch.</li> </ul> </li> </ul>		
"Y Diwrnod Ysgol"	Addoli ar y cyd a Gwasanaethau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Addoli ar y cyd/gwasanaethau dyddiol yn unol ag amserlen yr ysgol.</li> </ul>	4	4	16	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim addoli ar y cyd fel ysgol gyfan/cyfnod allweddol na gwasanaethau.</li> <li>Cynnal addoli ar y cyd mewn dosbarthiadau unigol.</li> </ul>						
"Y Diwrnod Ysgol"	Teithio o gwmpas yr ysgol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff dysgwyr eu cefnogi gan oedolion a'u hatgoffa o'r disgwyladau o ran cadw pellter cymdeithasol.</li> <li>Ychydig iawn o deithio oherwydd niferoedd isel.</li> </ul>	4	3	12	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim mwy na xx% o boblogaeth yr ysgol i gael mynediad yr un pryd, canolbwyntio ar grwpiau blaenoriaeth LIC ar gyfer mynediad.</li> <li>Mapio a marcio pellter cymdeithasol ar draws yr ysgol.</li> <li>Posteri yn atgoffa pawb i gadw pellter yn amlwg i bawb.</li> <li>Lleihau teithio o gwmpas yr ysgol drwy aros yn yr un dosbarth drwy gydol y dydd.</li> <li>Sefydlu trefn/ffenestr ar gyfer egwyl toiled.</li> <li>Cadw pob drws ar agor ar wahân i ddrysau tân, toiled a diogelwch.</li> <li>Sefydlu system unffordd drwy'r ysgol (defnydd posibl o lwybrau tu mewn a thu allan) ac/neu goridorau wedi'i marcio'n glir ar gyfer cerdded ar yr ochr chwith yn unig.</li> <li>Gofalu bod manau cyhoeddus mor glir â phosibl o gyfyngiadau.</li> <li>Os bydd y tywydd yn ddrwg, lleihau teithio i weithgareddau yn y dosbarth yn unig, ond bai bod angen mynd i'r toiled.</li> <li>Y tîm gofaluwr lanau pob drws/arwyneb yn rheolaidd drwy gydol y dydd.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Canllawiau eglur ar ofynion cadw pellter cymdeithasol.</li> </ul>		
"Y Diwrnod Ysgol"	Y Cyfnod Sylfaen (CS)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall rhai dysgwyr eisoes fod yn mynd i'r hybiau os yw eu rhieni yn weithwyr allweddol/bregus.</li> <li>Dysgu o Bell ar waith ar gyfer holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd.</li> </ul>	5	4	20	<ul style="list-style-type: none"> <li>Amserlen weledol i staff a dysgwyr gydag ardaloedd dynodedig gan gynnwys defnyddio'r tu allan ar adegau penodol.</li> <li>Amser carped/eistedd i fod cyn lleied â phosibl.</li> <li>Dylai dysgwyr eistedd ar farc dynodedig ar y llawr.</li> <li>Un aelod staff i fod ar gael i ddellio gyda defnyddio'r toiled, hylendid offer a hylendid personol drwy gydol y diwrnod ysgol/sesiwn yn unol â chanllawiau LIC.</li> <li>Gellid rhoi bag adnoddau i ddysgwyr ddefnyddio drwy gydol y dydd a thrê o eitemau i'w defnyddio mewn gweithgareddau dysgu ymarferol a drwy brofiadau. Eitemau i'w diheintio wedi'u defnyddio.</li> <li>Offer mawr, e.e. beics, sgwteri, ceir, i gael eu diheintio ar ôl eu defnyddio.</li> <li>Dysgwyr i ddod i'r ysgol mewn dillad sy'n addas ar gyfer dysgu yn yr awyr agored h.y. ymlacio mewn gwisg ysgol-gan gynnwys hetiau ac elci haul.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Y gweithgareddau dosbarth a fydd yn cael eu gwneud i ystyried y gymhareb oedolyn:plenty.</li> <li>Ystyried trefn trosglwyddo plant CS i rieni ar gychwyn a diwedd y diwrnod ysgol - sut fydd hyn yn gweithio i sicrhau bod oedolion a phlant yn cadw pellter cymdeithasol.</li> </ul>		

COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL GYNRADD

Grŵp	Maes Pryder	Mesurau Parod	Tebygolrwydd Difrifoldeb	Sgôr	Mesurau Rheoli Ychwanegol	Tebygolrwydd Difrifoldeb	Sgôr	Sylwadau Ychwanegol	Cyfrifoldeb	A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw?	
"Y Diwrnod Ysgol"	Amseroedd Egwyl	<ul style="list-style-type: none"> <li>Amseroedd egwyl pan fydd angen ar hyn o bryd, gyda ffrwythau ar gael mewn mannau cyffredin cyhoeddus neu ddosbarthiadau.</li> </ul>	4	4	16	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwyno amseroedd egwyl gwasgarog i bob dosbarth a lleihau ymhen amser os yn briodol.</li> <li>Defnyddio'r tu allan, os yn briodol, drwy ddefnyddio drysau allan dosbarthiadau i leihau teithio o gwmpas yr ysgol.</li> <li>Sicrhau bod lefel goruchwyllo gan staff yn briodol amser egwyl.</li> <li>Llefydd bwyta ffrwyth cyffredin i fod ar gau a dysgwyr i ddot â ffrwyth eu hunain efo nhw i'w fwyta yn y dosbarth - ffrwythau i'w bwyta yn y dosbarth.</li> <li>Pob dysgwr i olchi dwylo wrth ddychwelyd o amser egwyl.</li> <li>Gofalu bod pob dysgwr sy'n deall cadw pellter cymdeithasol ond yn dewis peidio â dilyn hyn, yn cael ei atgoffa o'r hyn sy'n ddisgwyliedig.</li> </ul>					
"Y Diwrnod Ysgol"	Amser Cinio	<ul style="list-style-type: none"> <li>Amser cinio tua hanner dydd fel arfer efo un neu ddau eisteddiad, yn dibynnu ar faint yr ysgol. Mae hyn yn cyfyngu ar gadw pellter cymdeithasol.</li> </ul>	3	4	12	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwyno amseroedd cinio gwasgarog i sicrhau cadw pellter cymdeithasol yn y ffreutur. Gall hyn olygu cynyddu nifer yr eisteddiadau.</li> <li>Annog dysgwyr i ddot â'u pecyn bwyd eu hunain a'i fwyta yn y dosbarth.</li> <li>Ystyried defnyddio amseroedd chwarae distrwythur ar ôl bwyta i sicrhau cadw pellter cymdeithasol ble'n bosibl e.e. rhannu'r iard chwarae yn ardaloedd.</li> <li>Ystyried posibiliadau cael sesiynau hanner diwrnod i wahanol grwpiau/dosbarthiadau o ddysgwyr, felly yn osgoi'r angen am amseroedd cinio.</li> </ul>					
"Y Diwrnod Ysgol"	Defnyddio'r Ystafell Athrawon	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y drefn bresennol mewn ystafell athrawon yn amrywio yn dibynnu ar faint o staff sydd yno.</li> <li>Trefn cadw pellter cymdeithasol eisoes yn cael ei harddel yn y rhan fwyaf o achosion.</li> </ul>	2	4	8	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cadw pellter cymdeithasol pob amser.</li> <li>Un person i fynd at y lle bwyd/diod ar y tro.</li> <li>Lleihau cynhwysedd yr ystafell athrawon fel bod modd cadw pellter.</li> <li>Unigolion i baratoi bwyd/diodydd i'w bwyta a'u hyfed eu hunain yn unig.</li> <li>Dim rhannu cyllyll a ffyr/llestri. Unigolion i olchi/cadw eu pethau eu hunain.</li> <li>Unrhyw fotymau cyffwrdd ar offer cegin sy'n cael ei rannu e.e. microdon, i gael eu glanhau cyn eu defnyddio, ac wedyn.</li> <li>Defnyddio biniau gwastraff/biniau ailgylchu agored yn unig.</li> </ul>					
Trefniadau Domestig	Arlwyo	Gall dysgwyr gael prydau amser cinio yn yr ysgol.	3	4	12	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai dysgwyr fwyta yn eu hystafelloedd dosbarth eu hunain lle bo'n bosibl.</li> <li>A fydd dysgwyr yn cael eu hannog i ddot â'u cinio eu hunain? - Holwch adran arlwyo'r ALI.</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r ddarpariaeth ystyried a ddylai gynnwys brecwast, cinio ac, o bosibl, swper pan fo angen am hyd y gofal. Efallai y bydd angen byrbrydau hefyd.</li> <li>Os yw'n bosibl, dylid gweini bwyd yn yr ystafelloedd lle mae'r dysgwyr yn ymgymryd â gweithgaredd. Mae hyn yn lleihau'r risg o drosglwyddo haint. Dylid glanhau'r ardal yn unol â'r canllawiau ar ôl bwyta.</li> <li>Dylai staff sicrhau eu bod yn parhau i ymbellhau'n gymdeithasol yn ystod amseroedd bwyd a dylai dysgwyr eistedd dau fetr oddi wrth ei gilydd.</li> <li>Yn yr achos hwn, dylid cael gwared ar y byrddau o annibendod, wedi'u diheintio, ac yn weledol lân cyn darparu'r pryd/byrbryd.</li> <li>Os oes unrhyw byrderon, dylai ysgolion a lleoliadau ofyn am gyngor eu tîm iechyd yr amgylchedd lleol am gyngor.</li> <li>Dylai dysgwyr hefyd olchi eu dwylo cyn ac ar ôl bwyta a dylai staff hefyd olchi eu dwylo cyn ac ar ôl gweini bwyd.</li> <li>Efallai y bydd yr ysgol neu'r lleoliad am ystyried darparu prydau ar gyfer staff hefyd er mwyn lleihau nifer y gwrthrychau sy'n cael eu trosglwyddo o'r adeilad ac i'r adeiladau.</li> <li>Dylai awdurdodau lleol a phenaethiaid weithio gyda darparwr a chyflenwr bwyd i sicrhau bod hylendid yn cael ei wneud yn drylwyr iawn, gan gynnwys paratoi, defnyddio a gwaredu.</li> <li>Rhaid peidio â rhannu bwyd. Dylid gwahanu unrhyw fyrbrydau yn glir i osgoi hyn</li> <li>Gallai amser cinio ac egwyl gael ei wahanu i gefnogi ymbellhau cymdeithasol.</li> </ul>		

COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL GYNRADD

Grŵp	Maes Pryder	Mesurau Parod	Tebygolrwydd			Mesurau Rheoli Ychwanegol	Tebygolrwydd			Sylwadau Ychwanegol	Cyfrifoldeb	A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw?
			Difrifoldeb	Sgôr			Difrifoldeb	Sgôr				
Trefniadau Domestig	Dal/Lledaenu. Methu cadw pellter cymdeithasol wrth roi gofal personol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ysgolion wrthi'n dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar fenig a ffedogau.</li> <li>Gall masgiau wyneb hefyd fod ar gael i staff.</li> </ul>	3	4	12	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dilyn canllawiau ar gyfarpar amddiffyn personol gan gynnwys masgiau wyneb, ffedogau a menig.</li> <li>Rhoi gwastraff mewn dau fag.</li> <li>Gofalu bod binau gwastraff yn cael eu gwagio pob diwrnod gan y tîm gofalywyr.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygwch oriau/arferion glanhau i feithrin hyder y cyhoedd.</li> <li>Mae angen strategaeth ar gyfer unrhyw aelod o'r ysgol sy'n arddangos symptomau Covid-19.</li> <li>Polisi ar waith ar gyfer hysbysu cymuned yr ysgol am unrhyw achosion a gadarnhawyd a'r gallu i olrhain, lle bo hynny'n rhesymol, eraill a allai fod wedi dod i gysylltiad â'r achos a gadarnhawyd.</li> <li>Y Cyngor presennol yw nad oes angen sgrinio tymheredd. Bydd rhieni/gofalywyr y dysgwyr yn gallu gwirio eu tymheredd. Beth bynnag, ni fydd sgrinio'n nodi pob achos o Covid-19 a gall y dull o wirio'r tymheredd roi staff mewn mwy o berygl o drosglwyddo. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Wrth gwrs, dylai staff fod yn wyladwros o newidiadau i dymheredd ac arwyddion twymyn y plant.</li> <li>Ni ddylid anfon unrhyw ddysgwr â symptomau i'r ysgol o gwbl ac mae'n hanfodol bod rhieni/gofalywyr yn cael eu hannog i weithredu'n unol â hynny.</li> <li>I'r mwyafrif helaeth o ddysgwyr, mae Covid-19 yn salwch ysgafn. Cyngorhwyd dysgwyr sydd wedi'u dosbarthu fel rhai sy'n amddiffyn oherwydd cyflyrau meddygol a oedd yn bodoli eisoes i ymgymryd â mesurau penodol i 'gysgodi'. Mae gan y dysgwyr hyn gyflyrau iechyd sylfaenol difrifol sy'n eu rhoi mewn perygl uchel o salwch difrifol o Covid-19 ac fe'u cynghorir i ddilyn mesurau gwarchod yn drylwyr er mwyn y cadw eu hunain yn ddiogel. Ni ddylai ysgolion ddisgwyl i'r dysgwyr hyn fynychu ysgolion neu leoliadau ar hyn o bryd, a dylent barhau i gael cymorth gartref gymaint â phosibl.</li> <li>Unwaith y bydd rhywun yr amheuir ei fod wedi cael cadarnhad neu fod ganddo symptomau wedi'i nodi, rhaid nodi pob ardal lle mae'r person hwn wedi'i adnabod a'i gadw'n glir. Dylai'r broses o reoli'r ardal fod yn ffisegol lle bo'n bosibl h.y. rhwystrau gydag arwyddion addas neu y tu ôl i ddrysau wedi'u cloi. Dylid glanhau cyn ailfeddiannol yn dilyn canllawiau ' Covid-19: glanhau mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai gofal iechyd '.</li> <li>Bydd angen ystyried plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn glinigol (nad ydynt yn gwarchod) fesul achos, ond wrth gwrs, ni fyddem ond yn disgwyl i'r rhain fod yn bresennol os yw rhieni/gofalywyr yn fodlon bod hyn yn ddiogel iddynt.</li> <li>Mae risg y bydd dysgwyr (a staff) yn ofidus a hyd yn oed yn crio wrth ddychwelyd i'r ysgol.</li> </ul>		
Trefniadau Domestig	Ymwelwyr yn yr ysgol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim ond ymwelwyr hanfodol i ddod i'r brif dderbynfa ac aross i staff ddod i gyfarfod â nhw.</li> <li>Dim ymwelwyr oni bai bod hyn wedi'i drefnu o flaen llaw.</li> </ul>	2	4	8	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pob ymwelydd i fod wedi'i drefnu o flaen llaw.</li> <li>Dim ymwelwyr allanol heblaw am ymwelwyr allweddol e.e. nyrs ysgol, gweithwyr cymdeithasol amddiffyn plant.</li> <li>Canslo pob ymweliad/cyswllt anstatudol neu eu gwneud drwy rith gyfarfodydd.</li> <li>Hylif diheintio dwylo a chanllawiau ar weithdrefnau'r ysgol ar gael i bob ymwelydd.</li> <li>Gadael post yn y dderbynfa.</li> <li>Lleihau cyswllt wrth ddanfôn parseli/cyfnwedd dogfennau a defnyddio llofnod/taliadau electronig ble'n bosibl.</li> <li>Person enwebedig yn casglu'r post/parseli a rhoi cadach efo hylif diheintio drostynt.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogaeth yr ALI i reoli disgwyliadau rhieni ac asiantaethau allanol bod ysgolion yn rhedeg 'yn ôl yr arfer' yn syth.</li> </ul>		
Trefniadau Domestig	Prosesau glanhau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Newid prosesau glanhau i ganolbwyntio ar arwynebau, drysau a manau cyffredin.</li> <li>Gofynnir i bob staff fod yn ystyriol a chefnogi prosesau glanhau.</li> </ul>	2	4	8	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynyddu oriau glanhau nes y dywedir fel arall a chanolbwyntio ar arwynebau, drysau a manau cyffredin.</li> <li>Cynyddu oriau glanhau i sicrhau bod yr holl arwynebau yn cael eu glanhau yn drylwyr ar ddiwedd y diwrnod/shifft.</li> <li>Mae hyn yn golygu cynyddu amser gofalywyr.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Costau cysylltiedig oherwydd ymateb i asesiad risg.</li> <li>Defnyddio drysau sy'n gweithio efo 'ffob' ble'n bosibl, yn hytrach na bysellbad.</li> </ul>		
Arweiniad a Dogfennau	Adolygu Polisiâu Allweddol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Arfarnu'r polisiâu cyfredol i sicrhau y byddant yn gwrthsefyll craffu dan y gofynion presennol.</li> </ul>	2	2	4	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gosod strwythur adolygu polisi i sicrhau craffu a chymeradwyaeth gan y Corff Llywodraethu.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Cysylltu â'r ALI i rannu arferion gorau a chydymffurfiaeth.</li> </ul>		

COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL GYNRADD

Grŵp	Maes Pryder	Mesurau Parod	Tebygolrwydd	Dirifoldeb	Sgôr	Mesurau Rheoli Ychwanegol	Tebygolrwydd	Dirifoldeb	Sgôr	Sylwadau Ychwanegol	Cyfrifoldeb	A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw?
Arweiniad a Dogfennau	Creu canllawiau ysgol newydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r arferion gwaith presennol wedi esblygu yn ystod cyfnod ail bwrpasu ysgolion.</li> <li>Dylai ysgolion ystyried gosod arweiniad newydd ar gyfer y cyfnod ail ymgysylltu nesaf hwn.</li> </ul>	2	2	4	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu set o ddisgwyliadau ac egwyddorion canllaw i'r holl randdeiliaid.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwirio efo Adnoddau Dynol bod unrhyw arweiniad diwygiedig yn cydymffurfio â chytundebau efo Undebau a Chymdeithas.</li> <li>Gall ysgolion fod eisiau ystyried datblygu llawlyfr (copi caled ac/neu ar-lein) i gyfeirio ato ar gyfer y trefniadau gweithredu newydd.</li> </ul>		
Arweiniad a Dogfennau	Larwm Tân/Gadael mewn achos o dân	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'n bosib nad oes unrhyw ymarferion tân, profion larwm ac ati wedi cael eu cynnal yn ystod cyfnod y cyfyngiadau.</li> <li>Efallai na fyddai mesurau arferol ysgol yn briodol yn ystod y cyfnod hwn oherwydd cadw pellter cymdeithasol a newidiadau posibl i goridorau/llwybrau allan o adeilad yr ysgol.</li> </ul>	3	4	12	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu Asesiad Risg Tân.</li> <li>Profion larwm tân wythnosol, yn ôl yr arfer.</li> <li>Gohirio ymarferion gwagio'r adeilad mewn achos o dân (adolygu'r sefyllfa pob 6 wythnos).</li> <li>Cadw pellter cymdeithasol wrth wagio'r adeilad, os yn ymarferol.</li> <li>Cadw pellter cymdeithasol mewn man ymgynnull tân.</li> </ul>						
Parhad Dysgu	Adolygu dull dysgu o bell i gynnwys mwy o ddysgwyr yn cael cyswllt â'r ysgol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dysgu o bell wedi'i sefydlu i'r rhan fwyaf o ddysgwyr - cymysgedd o dasgau ar y we, yn seiliedig ar ddewislen, tasgau thematig.</li> </ul>	2	4	8	<ul style="list-style-type: none"> <li>Darpariaeth Dysgu o Bell bresennol i barhau i ddysgwyr yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol.</li> <li>Staff i weithio mewn timau i ddarparu'r ddarpariaeth.</li> <li>Arferion da sydd wedi'u hadnabod a'u sefydlu wrth ddysgu o bell i gael eu datblygu.</li> <li>Rhoddyd pwyslais ar les wrth ddysgu o bell - mae angen i hyn barhau a'i gyfoethogi os yn bosibl wrth i ddysgwyr ddechreio i'r 'normal newydd'.</li> <li>Er hynny mae angen cydbwysu hyn efo ystod o dasgau 'academaidd' i ddod â rhyw fath o normalrwydd ac addysg i ddysgwyr.</li> <li>Bydd hyn yn sicrhau tegwch o ran darpariaeth i bob dysgwr.</li> <li>Gellid ffilmio cyflwyniadau athrawon yn y dosbarth a'u llwytho ar 'Seesaw' / Google Classroom er mwyn peidio â dyblygu gwaith.</li> <li>Mae amser yn yr ysgol yn 'amser cyswllt' o ran dysgu o bell ac yn gyfle i ryngweithio'n gymdeithasol (o bell) efo cyfoedion.</li> <li>Drwy ddatblygu ar y ddarpariaeth bresennol, sicrhau cysondeb a thegwch i bob dysgwr, bydd yn ysgafnu llwyth gwaith ac yn helpu efo annibyniaeth a chadw pellter.</li> <li>Gwahaniaeth posibl fydd trefn/amserlen sy'n fwy strwythuredig i ddysgwyr sy'n mynd i'r ysgol.</li> <li>Rota - ai diwrnod neu wythnos, dau/tri diwrnod yr wythnos ar y tro - dibynnu ar flaenoriaeth ac felly niferoedd ym mhob ysgol?</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Gellid datblygu ac addasu'r ddarpariaeth wrth i niferoedd dysgwyr godi dros amser - datblygu modelau yn ôl yr amrywiol opsiynau.</li> <li>Bydd o leiaf 3 grŵp o ddysgwyr:                         <ol style="list-style-type: none"> <li>1 - Y rheiny sy'n dod yn ôl i'r ysgol ond i amgylchedd gwahanol ac un sydd dan straen o bosib</li> <li>2 - Y rheiny na allant ddechreio i'r ysgol oherwydd eu bod nhw, neu aelod o'u teulu, yn fregus</li> <li>3 - Y rheiny na fyddant yn dychwelyd i'r ysgol oherwydd ofn (awgrym cyswllt â statws economaidd gymdeithasol isel)</li> </ol> </li> <li>Mae OECD yn awgrymu'n gryf na ddylid gorfodi neb i fynd i'r ysgol. Mae angen i'r holl ddysgwyr hyn gael darpariaeth deg yn unol ag egwyddorion strategaeth dysgu o bell.</li> </ul>		

**COVID-19 - PARATO I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL GYNRADD**

Grŵp	Maes Pryder	Mesurau Parod	Tebygolrwydd			Mesurau Rheoli Ychwanegol	Tebygolrwydd			Sylwadau Ychwanegol	Cyfrifoldeb	A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw?
			Dirifoldeb		Sgôr		Dirifoldeb		Sgôr			
Parhad Dysgu	Diwrnod cyflwyno staff i'r prosesau newydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae staff wrthi'n gweithio i gefnogi dysgwyr mewn amrywiol ffyrdd - cadw cysylltiad â phawb/dysgwyr bregus, cefnogi dysgu o bell, mynd i Hybiau ar sail rota.</li> <li>Mae rhai aelodau staff yn hunan ynysu ac yn gwarchod, felly'n gweithio o gartref.</li> <li>Mae ysgolion wedi creu amryw byd o ffyrdd i gyfathrebu â staff a gweithio mewn timau fel y bo'n briodol.</li> </ul>	2	4	8	<ul style="list-style-type: none"> <li>Arweiniad clir i'r holl aelodau staff ar resymeg a phwrpas y cyfnod dysgu nesaf gyda lles dysgwyr a'r gweithlu yn flaenoriaeth.</li> <li>Cysuro staff i leihau pryder a straen a achosir wrth ddychwelyd i'r gwaith.</li> <li>Adolygu arferion yr ystafell athrawon i sicrhau y cedwir at drefn cadw pellter cymdeithasol a hylendid.</li> <li>Deall proffil y staffio all ddychwelyd i'r ysgol a'r cwricwlwm a gynigir i gefnogi unrhyw staff sy'n pryderu am ddychwelyd.</li> <li>Gofalu bod y staff i gyd wedi cael cyfle i gymryd rhywfaint o wyliau ers ail bwrpasu ysgolion ar 23 Mawrth, 2020.</li> <li>Ystyried bod anwytho staff yn flaenoriaeth ac adolygu'r llawlyfr staff i gynnig arweiniad a chanllawiau ar gyfer y cyfnod nesaf hwn.</li> <li>Cynnal cyswllt â'r holl staff, fel bod modd i gydweithwyr gefnogi'i gilydd a phartneriaeth efo Undebau a chyfle i holi cwestiynau.</li> <li>Cymorth gan Adnoddau Dynol ar gyfer amodau gwaith staff.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Cymorth i'r holl staff gyda lles a diogelwch yn flaenoriaeth ar draws pob cyfnod i gynnwys cyfarpar diogelu personol i staff.</li> <li>Cyfathrebu a chyswllt rheolaidd i adnabod hyfforddiant ac/neu gwmsela i'r rheiny a adnabyddir.</li> <li>Pwyntiau adolygu rheolaidd i sicrhau lles staff - defnyddio cylchlythyrau/mewnrwyd i sicrhau bod pawb yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.</li> <li>Cyfluoedd i staff weithio ar y cyd yn yr ysgol ac o fewn cyfnodau/clystyrau i ystyried cymorth ar gyfer dysgu o bell/datblygu cynnig cwricwlwm.</li> <li>Dysgu proffesiynol ar sut i gefnogi dysgwyr ddychwelyd i'r ysgol â mwy o bryderon/trawma a pharhad sgiliau TGCh fel rhan o ddsygu o bell.</li> <li>Cyngor i ysgolion ar statws dyddiau hyfforddiant staff.</li> </ul>		
Parhad Dysgu	Lles Dysgwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan ysgolion ystod o gymorth ar gael i ddsygyr.</li> </ul>	3	4	12	<ul style="list-style-type: none"> <li>Unwaith y bydd ysgolion yn ail ddechrau, ystyriaeth i ddsygyr ddychwelyd at yr athro a'r dosbarth blaenorol am gyfnod byr o amser.</li> <li>Byddai'n haws i ddsygyr gadw pellter cymdeithasol ac ati mewn lleoliad cyfarwydd efo staff cyfarwydd.</li> <li>Dylai gwasanaethau cymorth a lles yr ALI gysylltu ag ysgolion i helpu efo arweiniad yn gysylltiedig â 'thrawma' a, ble bo'n briodol, gwasanaethau profedigaeth.</li> <li>Ble bydd grwpiau blwyddyn yn dychwelyd i'r ysgol, dylai arweinwyr ysgol ystyried: <ul style="list-style-type: none"> <li>- iechyd meddwl a lles dysgwyr, ac adnabod unrhyw ddsygyr allai fod angen cymorth ychwanegol er mwyn bod yn barod i ddsygu;</li> <li>- asesu ble mae dysgwyr arni yn eu dysgu, a chytuno pa addasiadau sydd angen eu gwneud i gwricwlwm yr ysgol dros yr wythnosau nesaf;</li> <li>- adnabod a chynllunio sut oriau i gefnogi addysgu grwpiau anghenion uchel, gan gynnwys dysgwyr difreintiedig, dysgwyr AAA ac Anawsterau a dysgwyr bregus.</li> </ul> </li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Gofalu bod gan ysgolion systemau effeithiol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng staff - adnabod dysgwyr allai bellach fod yn fregus wedi'r cyfnod cyfyngiadau a Covid-19.</li> </ul>		
Parhad Dysgu	Gweithgarwch Corfforol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwersi AG arferol ddim yn rhan o'r cynnig dysgu ond defnyddio'r maes chwarae ac arwynebau chwarae i gefnogi ymarfer corff a lles.</li> </ul>	3	4	12	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn ôl y cynnig parhad dysgu, ail werthuso gwersi Addysg Gorfforol ac unrhyw faes/ardal tu allan a ddefnyddir i wneud ymarfer corff.</li> <li>Dim gemau goresgyn, chwaraeon unigol/di-gyswllt yn unig.</li> <li>Ystyried adnoddau i gefnogi lles dysgwyr a rôl gweithgarwch corfforol o ran cefnogi iechyd e.e. Joe Wicks, cosmic yoga.</li> <li>Rhoi cadach diheintio ar bob cyfarpar chwaraeon cyn y wers nesaf.</li> <li>Cynnig chwaraeon tu allan os bydd y tywydd yn caniatáu.</li> </ul>						

COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL GYNRADD

Grŵp	Maes Pryder	Mesurau Parod	Tebygolrwydd	Difrifoldeb	Sgôr	Mesurau Rheoli Ychwanegol	Tebygolrwydd	Difrifoldeb	Sgôr	Sylwadau Ychwanegol	Cyfrifoldeb	A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw?
Parhad Dysgu	Cymorth oedolyn	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar hyn o bryd, mae'r holl staff ar y rota i sicrhau tegwch a lleihau niferoedd ar y safle ar yr un pryd.</li> <li>• Rota yn seiliedig ar anghenion a niferoedd dysgwyr.</li> <li>• Angen rhagor o gymorth/cyngor i sicrhau y cedwir pellter diogel.</li> </ul>	3	4	12	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhau i weithio ar sail rota.</li> <li>• Rhannu cymorth oedolyn rhwng dosbarthiadau, gan sicrhau bod cymarebau yn briodol i'r angen.</li> </ul>						
Parhad Dysgu	Cyfarpar i ddsygyr sydd ag anghenion arbennig	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd llawer o ddsygyr yn defnyddio'r un cyfarpar yn yr ysgol ac yn eu cartref hefyd.</li> </ul>	3	4	12	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cydlynu efo'r Bwrdd Iechyd i arfarnu beth sydd yn bosibl o ran cael rhagor o gyfarpar i gadw yn yr ysgol.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen ystyried y perygl o gario haint.</li> <li>• Trefniadau cludiant hefyd angen eu hystyried gan fod angen i yrwyr tacsï, hefyd gyffwrdd â'r offer.</li> </ul>		
Parhad Dysgu	Trosglwyddo i'r ysgol - Dysgwyr Newydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae rhai ysgolion uwchradd wedi gwneud cyswllt â dysgwyr a rhieni B6 am ffurflenni mynediad, cludiant, dod i adnabod dysgwyr drwy Google Classrooms.</li> </ul>	2	4	8	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arweiniad clir i'r staff i gyd ar resymeg a phwrpas y cyfnod dysgu nesaf gyda diogelwch a lles dysgwyr a'r gweithlu i gael blaenoriaeth.</li> <li>• Yn dibynnu ar faint yr ysgol, cynhwysedd staffio a'r nifer mwyaf o ddsygyr gaiff fod yn yr adeilad ar y tro tra'n cadw pellter cymdeithasol.</li> <li>• Ystyriaeth i F6 ddychwelyd i ysgolion cynradd am amser dynodedig yn Nhymor yr Hydref i gau pen y mwdwl ar eu cyfnod cynradd a lleddfu pryderon e.e. pythefnos.</li> <li>• Sefydlu grŵp naill fesul ysgol neu grwpiau dewisol. Staff yn rhannu cyfrifoldeb. Os bydd niferoedd staffio ysgol gynradd yn caniatáu, edrych ar y posibilrwydd o athro blwyddyn 6 presennol yn yr ysgol uwchradd.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mwy tebygol o fod yn dasg uwchradd/clwstwr.</li> </ul>		
Sicrhau Disgwyliadau	Dim cydymffurfio â rheolau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rheolau'r safle yn cael eu rhannu â holl weithwyr ysgol, dysgwyr, rhieni/gofalwyr drwy drafodaethau anffurfiol, llythyrau, e-bost ac ati.</li> <li>• Staff yn monitro rheolau'r safle fel y bo angen.</li> </ul>	2	4	8	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pawb i fod yn ymwybodol o reolau'r safle boed yn weithwyr, dysgwyr, rhieni/gofalwyr.</li> <li>• Arwyddion i atgyfnerthu rheolau'r safle ac arweiniad Covid-19.</li> <li>• Pennaeth/Athrawon dynodedig yn monitro a gweithredu rheolau'r safle a gofynion cadw pellter cymdeithasol.</li> <li>• Cymerir camau disgyblu yn erbyn unigolion sydd yn methu dro ar ôl tro i ddilyn unrhyw reolau safle/ALI.</li> </ul>						

COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL GYNRADD

Grŵp	Maes Pryder	Mesurau Parod	Tebygolrwydd	Difrifoldeb	Sgôr	Mesurau Rheoli Ychwanegol	Tebygolrwydd	Difrifoldeb	Sgôr	Sylwadau Ychwanegol	Cyfrifoldeb	A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw?
Sicrhau Disgwyliadau	Cyfathrebu â rhieni/gofalwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cydnabyddir bod cynnal perthynas effeithiol a chadarnhaol rhwng yr ysgol a'r cartref yn greiddiol ac, yn rhan o hyn, mae ysgolion wrthi'n defnyddio ystod o dduiliau ar gyfer cyfathrebu efo rhieni/gofalwyr i gynnwys galwadau ffôn, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, e-bost, testun, defnyddio Hwb a thynnu partneriaid i mewn i gefnogi teuluoedd efo adnoddau.</li> </ul>	3	4	12	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhesymeg a phwrpas pendant dros ysgolion yn ail agor yn helpu rhoi tryloywder a gwybodaeth i rieni/gofalwyr ar ba ddysgwyr sy'n cael blaenoriaeth a pham.</li> <li>Ysgolion yn cael eu cefnogi efo modelau/templodi o'r hyn i'w gynnwys mewn gohebiaeth i rieni/gofalwyr i egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau a fydd ganddyn nhw, y dysgwyr, a'r ysgol yn y cyfnod nesaf hwn wrth ddychwelyd i'r ysgol.</li> <li>Rhannu esboniadau a modelau o'r diwrnod ysgol, yn ogystal â dealltwriaeth o ofynion cadw pellter cymdeithasol o fewn adeilad yr ysgol, trosglwyddo ar gychwyn ac ar ddiwedd y diwrnod.</li> </ul>				<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai ysgolion a lleoliadau ddarparu dulliau cyfathrebu clir er mwyn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn deall disgwyliadau. Gallai hyn gynnwys:</li> <li>Rhybudd ymlaen llaw gan rieni ynghylch a fyddant yn anfon eu plant.</li> <li>Cynghorwch y rhieni i ddatgan nad yw eu plant wedi dangos symptomau Covid-19.</li> <li>Eglurder o ran trefniadau trafnidiaeth i ac o safle'r ysgol, bydd hyn hefyd yn cynnwys gollwng a chasglu.</li> <li>Amseru diwrnod ysgol – yn enwedig os yw'r ysgol yn amseroedd cychwyn syfrdanol.</li> <li>Mynedfeydd ac allanfeydd ysgol – gall hyn fod yn wahanol i drefniadau "arferol".</li> <li>Trefniadau bwyta a pholisi hylendid.</li> <li>Gweithdrefnau os yw plentyn yn mynd yn sâl yn ystod amser yn yr ysgol.</li> <li>Trefniadau ar gyfer grwpiau o ddysgwyr drwy gydol y diwrnod ysgol.</li> <li>Protocolau clir ar gyfer plant iach sy'n dychwelyd i'r ysgol yn unig, yn deall beth sy'n digwydd yn ystod y dydd os bydd plentyn yn troi'n sâl.</li> <li>Ysgolion i ystyried y dull o gefnogi teuluoedd cyfan gyda mwy nag un plentyn yn dychwelyd ar yr un pryd.</li> <li>Ysgolion i ystyried sut y gall rhieni roi adborth i ysgolion-holiadur ar farnau am ddychwelyd, adborth ar ddysgu o bell a chymorth sydd ei angen ar blant.</li> <li>Ystyried sut fydd plant yn cyfathrebu efo rhieni dysgwyr newydd ar adegau trosglwyddo allweddol e.e. Meithrin / B2 / B6.</li> </ul>		

COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAID RISG YSGOL UWCHRADD

Grŵp	Maes Pryder	Mesurau Presennol	Tebygolrwydd Dirifoliaeb	Sgôr	Mesurau Ychwanegol	Tebygolrwydd Dirifoliaeb	Sgôr	Sylwadau Ychwanegol	Cyfrifoliaeb
		Cynwyo Sesiynau - Angydu, Dal i Fyny, Paratoi ar gyfer yr haf a mis Medi' yn ystod tymor yr haf 2019/20 sy'n llywio'r canllawiau hyn, ynghyd â'r cyngor gwyddonol a meddygol diweddaraf. Mae'r canllawiau'n amlinellu'r cyngor iechyd cyhoeddus y mae'n rhaid i ysgolion ei ddilyn			Mae'r risg o blant yn mynd yn ddirifrol wael o'r coronafeirws (COVID-19) yn isel iawn, a chaiff bod allan o'r ysgol effaith negyddol ar iechyd. Mae'r ysgol yn bwyt cyswllt hanfodol i iechyd cyhoeddus a gwasanaethau diogelu, sy'n bwysig iawn i les dysgwyr a theuluoedd.			Does dim un dull sy'n addas i bawb. Mae arweinydd ysgolion yn deall anghenion eu hysgolion a'u cymunedau. Gallant ddod i farn wybodus, gan greu cydbwysedd rhwng darpariaeth cwricwlwm a mesurau rheoli risg. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn darparu egwyddorion i helpu ysgolion a lleoliadau addysgol i ddod i farn wybodus a lleihau risgiau. Gyda chymorth awdurdodau lleol, disgyblir i ysgolion a lleoliadau weithio'n agos gyda rhieni a staff wrth gytuno ar y dulliau gorau ar gyfer eu hamgylchiadau.	
Logisteg	Adeiladau	• Cyfrifo cynhwysedd ysgol	4	3	12			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan ALI ddata ar gynhwysedd a gellid cynnal amrywiaeth o fodolau wrth i'r cyngor ar gadw pellter cymdeithasol aeddfedu gyda'r cyngor gwyddonol cyfredol. Dylid gweithredu'r un egwyddorion diogelu i'r ystafell athrawon. Yr egwyddor gyffredinol yw lleihau'r cyswllt rhwng dysgwyr a staff. Gellir cyflawni hyn drwy gadw grwpiau cyswllt ar wahân a chadw pellter rhwng unigolion, lle bo hynny'n bosibl. Nid dewisiadau eraill yw'r rhain a bydd y ddau fesur yn helpu, ond bydd y cydbwysedd rhyngddynt yn newid, gan ddiybnu ar: <ul style="list-style-type: none"> <li>• allu plant i gadw pellter cymdeithasol</li> <li>• cynllun safle'r ysgol</li> <li>• pa mor ymarferol yw cadw grwpiau penodol ar wahân wrth gynnyg y cwricwlwm (yn enwedig yn yr ysgol uwchradd).</li> </ul> </li> <li>• Mae cadw pellter rhwng pobl yn adeilad yr ysgol a lleihau'r amser wyneb yn wyneb yn lleihau'r risg o drosglwyddo. Mae iechyd cyhoeddus yn cynghori'n gryf y dylai staff mewn ysgolion uwchradd gadw pellter oddi wrth eu dysgwyr, gan aros ym mlaen y dosbarth ac i ffwrdd o'u cyd-weithwyr lle bo modd. Yn ddefnyddol, dylai oedolion gadw pellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd, ac oddi wrth ddysgwyr.</li> <li>• Dylai ysgolion a lleoliadau wneud mán addasiadau i'r dosbarth i gefnogi cadw pellter cymdeithasol lle bo modd. Dylai hyn gynnwys dysgwyr yn eistedd ochr yn ochr gan wynebu ymlaen, yn hytrach na wynebu ei gilydd, a gallai olygu symud ddefnodyn diangen allan o ddsosbarthiadau er mwyn creu mwy o le.</li> <li>• Ceir cyngor cadarn gan iechyd cyhoeddus bod staff mewn ysgolion uwchradd yn cadw pellter oddi wrth eu dysgwyr, gan aros ym mlaen y dosbarth ac i ffwrdd o'u cyd-weithwyr, lle bo hynny'n bosibl. Yn ddefnyddol, dylai oedolion gadw pellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd, ac oddi wrth ddysgwyr.</li> </ul>	
Logisteg	Yr ystafelloedd	• Gofynion iechyd a diogelwch o safbwynt yr ystafell ddsosbarth a defnyddio lle o fewn yr ysgol.	4	4	16			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen i ysgolion edrych ar y mesurau o ran glanhau, golchi dwylo, toiledau, arlwyio a defnydd o'r gofod cymdeithasol.</li> </ul>	
